# Asesiad HMI Wendy Williams o Heddlu Gwent

Rwy'n fodlon ar y rhan fwyaf o agweddau ar berfformiad Heddlu Gwent wrth gadw pobl yn ddiogel a lleihau trosedd, ond mae angen i'r heddlu wneud gwelliannau mewn rhai meysydd er mwyn darparu gwasanaeth da yn gyson.

Mae'r heddlu'n dda yn nodi pobl sy'n agored i niwed, ond mae angen gwella ei ddull o amddiffyn dioddefwyr cam-drin domestig, a'i ddull o fynd i'r afael â throseddau difrifol a chyfundrefnol.

Mae'r heddlu wedi cynnal dealltwriaeth dda o alw, ond mae angen iddo wneud mwy i ddatblygu cynlluniau ariannol cynaliadwy i gyflawni arbedion yn y dyfodol.

Nododd ein harolygiad dalfa ar y cyd fod rhan fwyaf y carcharorion yn nalfeydd heddlu Gwent yn cael eu trin â pharch ac ystyriaeth, a'u bod yn cael eu cadw'n ddiogel dan amodau da. Mae'r heddlu'n blaenoriaethu ymddygiad moesegol ei weithlu, ond nid yw ei waith o fonitro sut y mae'n defnyddio pwerau gorfodaeth yn ddigon eang ei gwmpas.

Ar y cyfan, mae angen i Heddlu Gwent wella er mwyn adennill yr un lefel o wasanaeth yr oedd yn ei darparu o'r blaen, ond rwy'n hyderus y bydd yr heddlu'n gallu gwneud hyn a pherfformio'n well yn y dyfodol.